Cofnodion Cyfarfod 13 Ionawr 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Pat Jones	
Lena Ashley (LA)	Iestyn Harris	
George Smith (GS)	Daniel Williams	
Siân Gwenllïan	Sarah Riley	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Ionawr. **Ymddiheuriadau**: Mair Bebb Jones, Louise Hughes, Nerys John.	
2.0	Croesawodd y Cadeirydd, Mr Ifan Jones o Hunaniaeth i gyfarfod misol y Cyngor. Rhoddodd Ifan Jones adroddiad byr ynglŷn â'r fenter iaith Hunaniaeth. Dywedodd mai amcan y fenter oedd hybu'r iaith Gymraeg yn y cymunedau rheiny oedd wedi gweld nifer y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn o dan 70%. Mae grŵp anffurfiol lleol wedi ei godi ac mae Siân Gwenllïan a Nerys John yn barod yn aelodau. Pwrpas y grŵp yw cynllunio a pharatoi mesuriadau i godi'r canran siaradwyr Cymraeg. Mae'r llywodraeth gyda "toolkit" ar gyfer hyn, dull o restru lle mae'r gwendidau iaith sydd angen eu cryfhau. Yn arferol mae'r grŵp yn cyfarfod yn y Felin Sgwrsio. Mae'r grŵp yn gweithio i hybu'r iaith yn holl agweddau bywyd y Felinheli er mwyn galluogi pobl i allu byw yn y Felinheli. Un ffordd yw hybu'r iaith yw cefnogi tai fforddiadwy. Mae cyfarfod neilltuol wedi ei drefnu ar gyfer trafod syniadau a phrosiectau cynaliadwy a'r farchnad dai. Un o'r syniadau yw Ymddiriedolaeth Tai fel sydd yn Nefyn. Stoc o dai Lleol ar gyfer pobl leol. Bydd cyfarfod Nos Fawrth 3ydd o Fawrth 2015, croeso i bawb. Bydd cyfarfod brecwast Busnes ar yr 20 o Fawrth yn y Swellies. Diolchodd y Cadeirydd i Ifan Jones am ei gyflwyniad.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
3.1	Fe gyflwynodd Pat Jones a Daniel Williams ffurflen datgan diddordeb ar gyfer eitem 10.1.	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 9 Rhagfyr 2014. **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.**	**CLERC**
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Kronos** - cafwyd adroddiad ynglŷn â'r diweddar	

	ynglŷn â'r mater hwn. Penderfynwyd y byddai'r cyngor yn derbyn cynnig Kronos o £30K rhwng y ddau Gyngor. Cynigwyd y cynnig gan y Cynghorydd Iestyn Harris a'i eilio gan y Cynghorydd Daniel Williams.	
5.2	**Trefniadau Ariannol Unllais** - Bydd cynnwys y trefniadau yn cael eu cymharu â threfniadau presennol y cyngor gan y Cynghorwyr Iestyn Harris, Sarah Riley a'r Swyddog Ariannol. Cyfarfod i'w drefnu. Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad yn dilyn y cyfarfod.	
5.3	**Adolygu ffioedd y Fynwent** - Trafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai 10% o gynnydd ar y ffioedd presennol.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
6.1	Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cynghorydd Daniel Williams ynglŷn â diogelwch tan. Fe roddodd y Cynghorydd Iestyn Harries adroddiad ynglŷn â'r diweddaraf ynglŷn â mater llawr y neuadd.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Rhagfyr.	
7.2	**Praesept** - Cafwyd adroddiad gan y Swyddog Ariannol ynglŷn â'r fantolen brawf; ystyriwyd y praesept ar gyfer y flwyddyn 2105 - 2016 a phenderfynwyd ar £2.84 yr aelwyd.	**SWYDDOG ARIANNOL**
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Yr Arolygaeth Gynllunio - Llwybr ger Glan y Môr Lodge - derbyniwyd gwybodaeth y byddai ymholiad cyhoeddus ar y mater hwn ymlaen yn y flwyddyn.	
9.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
9.1	Eglurodd y Clerc mai prisiau gwaith trydanol yn unig oedd yn y prisiau tender diweddar; hefyd eglurodd bod angen tendr am y gwaith cyfan i alluogi'r cyngor wneud cais am gymorth ariannol oddi wrth Cadw. Dywedodd y Clerc hefyd ei bod wedi siarad â Chyngor Cymuned Trewalchmai ynglŷn â'u cloc hwy. Mae cymorth ariannol i'w gael oddi wrth y Loteri. Er mwyn derbyn y cymorth hwn y byddai angen i'r cyngor sicrhau bod y gymuned yn rhan o weithgareddau codi arian ynglŷn â'r cloc. **Y Cynghorydd Ken Brown i ymweld â'r ysgol i alluogi os byddai modd gwneud prosiect ynglŷn â'r cloc a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cynghorydd Sara Riley i arwain ar y cais am gymorth ariannol oddi wrth y Loteri.**	

10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C15/0004/20/LL – Codi ty fforddiadwy 4 ystafell wely – tir ger Bronallt, Tan y Maes, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4UQ – **DIM GWRTHWYNEBIAD**.	
11.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w adrodd	
13.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
13.1	Dim i'w Adrodd.	
14.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler Atodiad A	
15.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
15.1	Rhoddodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ynglŷn â'r gwaith sifil arfaethedig ger y Clwb Hwylio a byddai yn adrodd yn ôl i'r Cyngor pan fydd fwy o ddatblygiad.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:45 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	